Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Teitl:	Cynorthwyydd Cymorth Busnes – Lefel 3
Lleoliad:	ICC Blaenau, Blaenau
Cyfarwyddiaeth:	Gwasanaethau Corfforaethol a Strategaeth
Cyfeirnod Swydd:	BG11190
Oriau:	37 awr yr wythnos
Cyflog:	Gradd 3 (£21,189 to £21,968 y flwyddyn/pro rata)
Contract:	Cyfnod Sefydlog tan 31/03/2024

Crynodeb Swydd

Cyfrifol am ddarparu gwasanaeth cymorth gweinyddol cynhwysfawr i'r meysydd dilynol:

- **Dechrau'n Deg**
- **Teuluoedd yn Gyntaf**
- **Cynnig Gofal Plant**
- **Blynyddoedd Cynnar**

Rydym yn edrych am ymgeiswyr gydag ymagwedd broffesiynol, ansawdd uchel at ddarparu gwasanaeth gan sicrhau y caiff safonau a gofynion gwasanaeth eu cyflawni.

Hysbyseb Lawn

Mae cyfleoedd cyffrous o fewn y Gwasanaeth Cymorth Busnes ar gyfer unigolion brwdfrydig a hyderus a fydd yn ymateb i'r heriau y mae'r gwasanaeth hwn yn eu cyflwyno

Bydd y prif gyfrifoldebau ar gyfer y swyddi hyn yn cynnwys:

- Cynorthwyo gyda gweinyddu ceisiadau / atgyfeiriadau i raglenni Dechrau'n Deg, Blynyddoedd Cynnar, y Cynnig Gofal Plant a Teuluoedd yn gyntaf.
- Cynorthwyo gyda pharatoi gwybodaeth i weithwyr proffesiynol a theuluoedd e.e. taflenni, digwyddiadau hyrwyddo.
- Gweithio gyda Chydlynwyr Rhaglenni a darparu cefnogaeth weinyddol ansawdd uchel.
- Cynorthwyo wrth gynnal cronfeydd data cyfrifiaduron ar gyfer ffigurau mynychu a gwybodaeth perfformiad a ddefnyddir i gynhyrchu dadansoddiad ystadegol.
- Darparu gwasanaeth llanw yn y brif dderbynfa yn ICC pan ofynnir am hynny.
- Archebu drwy system E Bwrcasu.
- Diweddaru taenlenni a chronfeydd data drwy fwydo data.
- Bwydo data i gronfa ddata Gwasanaethau Cymdeithasol (WCCIS).
- Gweinyddiaeth gyffredinol, post, sganio, teipio, llungopïo ac yn y blaen.
- Cynorthwyo o fewn gwasanaeth ehangach Cymorth Busnes gan ddarparu cefnogaeth weinyddol gyffredinol o fewn Gwasanaethau Oedolion a Phlant.
- Mynychu cyfarfodydd a chadw nodiadau manwl.
- Cydymffurfio gyda'r Ddeddf Diogelu Data a chadw cyfrinachedd bob amser.
- Cydymffurfio gydag egwyddorion y polisi corfforaethol ar Gydraddoldeb a sicrhau ymrwymiad i ymarfer gwrthwahaniaethol.

Bydd profiad o weithio mewn amgylchedd cymorth busnes a delio gydag amrywiaeth eang o geisiadau a materion ynghyd â gwybodaeth gron o wasanaethau'r Cyngor yn fanteisiol iawn yn y swydd hon.

Cymeradwywyd Lwfans Defnyddiwr Car Achlysurol ar gyfer y swydd felly mae angen mynediad i gerbyd ar gyfer dibenion gwaith.

Cynhelir sgrinio trwyadl cyn-cyflogaeth yn ystod y broses recriwtio.

Dyddiad Cau: 1 Mehefin 2023

Dyddiad Cyfweliadau: TBC